1688

# Gwerthusiad Ardal Gadwraeth
## Tanysgafell, Gwynedd



Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Gwynedd Archaeological Trust



**Bythynnod yn Nhanysgafell**

# Gwerthusiad Ardal Gadwraeth Tanysgafell, Gwynedd

Prosiect Rhif G2675

Rhif yr Adroddiad 1688

Paratowyd ar gyfer Cyngor Gwynedd

Mehefin 2022

Ysgrifennwyd gan Andrew Davidson a Joanna Davidson

Cyhoeddwyd gan
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Craig Beuno, Ffordd y Garth, Bangor, Gwynedd LL57 2RT

Cadeirydd/ Chair — David Elis-Williams MA(Oxon), MSc, CPFA
Prif Archaeolegydd/ Chief Archaeologist — Andrew Davidson, BA, MCIfA, FSA

Mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd yn Gwmni Cyfyngedig (Rhif Cof. 1180515) ac yn Elusen (Rhif Cof. 508849)
Gwynedd Archaeological Trust is both a Limited Company (Reg No. 1180515) and a Charity (Reg No. 508849)

# Cynnwys

1 Cyflwyniad 6
1.2 Cydnabyddiaeth

2 Hanes cefndirol 8

3 Cymeriad yr anheddle 8
3.1 Lleoliad
3.2 Cymeriad
3.3 Dynodiadau

4 Disgrifiad o’r Ardal Gadwraeth 9

5 Gwelliannau a argymhellir 10

6 Newidiadau a argymhellir i’r Ardal Gadwraeth 11

7 Ffynonellau 11

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cyflwyniad Cyffredinol

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys canlyniadau gwerthusiad yn Ardal Gadwraeth Tanysgafell, i'r gorllewin o Fethesda. Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd (YAG) sydd wedi gwneud y gwerthusiad ar ran Cyngor Gwynedd.

Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn rhoi dyletswydd ar yr holl awdurdodau cynllunio lleol i benderfynu pa ardaloedd fyddai'n ddymunol eu cadw a'u gwella er mwyn eu dynodi fel ardaloedd cadwraeth. Mae'r Ddeddf hefyd yn datgan y dylai awdurdodau lleol adolygu eu gweithgareddau yn y gorffennol yn yr ardal yma gan ychwanegu mwy o gadwraeth ble bo'n briodol.

Mae'r gwerthusiad yn arfarnu'r ardal gadwraeth bresennol, gan ddarparu trosolwg o'i hanes, pensaernïaeth a'i chyflwr, ac yn awgrymu argymhellion priodol.

## 1.2 Cydnabyddiaeth

Eryl Williams a Hannah Joyce, Cyngor Gwynedd, gychwynnodd y prosiect, gan ddarparu cymorth hael a gwybodaeth i helpu gyda'r gwaith. Bu Dr John Llywelyn Williams hefyd yn garedig iawn yn rhoi cymorth a chyngor yn ystod y prosiect.


**1**
Rhifau 1 - 2 Tanysgafell



1

**2**
Map o'r Ardal Gadwraeth nawr a'r Ardal Gadwraeth a gynigir

**3**
Golygfa o'r awyr o'r pentref a'r fynwent yn y coed (Hawlfraint Map data 2021)




© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2012. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100021874.
© Crown Copyright and database right 2012. Ordnance Survey 100021874. Welsh Government.

Ffin yr Ardal arfaethedig

Ardal Bresennol

Adeilad Rhestredig

**Delwedd 2**

**Map o'r Ardal Gadwraeth nawr a'r Ardal Gadwraeth a gynigir**



# 2. Hanes cefndirol

Mae'r anheddle bychan hwn yn sefyll i'r gorllewin o Fethesda, ar ochr bellaf (gorllewin) Afon Ogwen. Mae'n cynnwys fferm Ty'n y Clwt Uchaf i'r gogledd a hen eglwys i'r de (mae'r eglwys y tu allan i'r ardal gadwraeth).

Nid oes unrhyw safleoedd cyn-hanesyddol neu ganoloesol wedi eu cofnodi yn union gerllaw'r pentref, er bod siambr gladdu Neolithig rhyw 800m i'r gorllewin yn Sling. Mae safleoedd cyn-hanesyddol eraill wedi eu cofnodi yn yr un ardal, ac mae llawer mwy o safleoedd cyn-hanesyddol i'w gweld i'r dwyrain o Fethesda.

Yr unig adeiladau o bwys ar y map degwm o 1840 yw'r rhai ar fferm Ty'n y Clwt, mae tir y fferm yn cynnwys y bythynnod diweddarach a'r eglwys sy'n ffurfio Tanysgafell. Ymhellach i'r de, ar hyd ochr Afon Caledffrwd, mae casgliad o adeiladau sy'n gysylltiedig â thwf y diwydiant llechi a'r cloddfeydd ocr yn Yr Ocar. Mae'r adeiladau helaeth yng Ngwaith Llechi Felin Fawr lai na 500m i'r de.

Y cynnydd yn y cynhyrchiant llechi a arweiniodd at adeiladu bythynnod i'r gweithwyr gan Stad y Penrhyn. Mae'r bythynnod hyn i'w cael mewn grwpiau ar wasgar ar ochr y mynydd. Mae'r anheddle bychan yn Nhanysgafell yn cynnwys eglwys, rhes o chwe phâr o fythynnod, a grŵp bychan arall o adeiladau rhwng y bythynnod a'r eglwys. Mae'r bythynnod yn nodweddiadol o ymdrechion teg Edward Douglas-Pennant i wella Stad y Penrhyn - ef oedd yr olynydd i'r stad yn 1840.
Cafodd yr eglwys ei hadeiladu yn 1848 gan wasanaethu'r aneddleoedd o amgylch, ar y cyd ag eglwys St Ann. Credir bod y parau o fythynnod i'r gogledd o'r eglwys yn dyddio o adeg debyg.

# 3. Cymeriad yr anheddle

### 3.1 Lleoliad

Mae Tanysgafell, a elwir hefyd yn Tanysgrafell weithiau gan bobl leol, yn ddatblygiad bychan ar ben ei hun ar ochr y ffordd, ger y B4409, sy'n rhedeg ar hyd ymyl gorllewinol Dyffryn Ogwen. Mae'r tir yn codi'n serth i'r gorllewin o'r ffordd ac yn ffurfio gwastatir ffrwythlon i'r dwyrain.

Mae'r llethr serth i'r gorllewin yn drwch o goed. Mae'r anheddle wedi'i leoli ar lawr y dyffryn, gyda thir pori o'i gwmpas ac ardal fawr o goed tua 100m i'r de sy'n cynnwys adfeilion eglwys Tanysgafell. Ar ochr arall y ffordd saif mae'r llethrau serth yn cynnwys nifer o olion chwarela, gan gynnwys traciau ar waliau cynnal mawr, ac incleiniau.

### 3.2 Cymeriad

O fewn yr Ardal Gadwraeth mae fferm Tŷ'n y Clwt Uchaf gynt, a grŵp bychan wedi'i gynllunio o dri phâr o fythynnod. Mae'r ffermdy, sy'n cynrychioli'r cyfnod amaethyddol cyn-ddiwydiannol, wedi'i rendro (â cherrig mân), ond mae'r lle rhwng y ffenestri yn awgrymu efallai ei fod yn dyddio'n wreiddiol o'r 18fed ganrif. Mae adeiladau'r fferm wedi'u clystyru efo'i gilydd gan greu buarth bychan, a chawsant eu hadeiladu â rwbel gyda thoeau llechi sy'n dod dros y talcenni hefyd. Mae ysgubor wair yn y cefn, gyda sied droliau a llofft ŷd yn y tu blaen, ac ysgubor rawn. Mae'r tri phâr o fythynnod yn cynrychioli'r cyfnod diwydiannol yng nghanol y 19eg ganrif ac fe'u hadeiladwyd ar gyfer gweithwyr yn Chwarel y Penrhyn gerllaw, oedd un ai'n gweithio yn y chwarel neu yn y melinau llechi. Mae'n debyg i'r bythynnod gael eu hadeiladu rhwng 1840 ac 1850, ac maent felly'n nodweddiadol o ymdrechion teg Edward Douglas-Pennant i wella Stad y Penrhyn – ef oedd yr olynydd i'r stad yn 1840. Maent yn fythynnod tlws, dwy ystafell, gyda waliau o lechi crog a ffenestri bae.

Fe adeiladwyd yr eglwys gysylltiedig i'r de-ddwyrain, ac fe'i lleolwyd ar safle hynod o gyfyng, yng nghysgod craig fawr ac mae bellach yng nghanol coetir trwchus. Mae'r hen fynwent yn dal i sefyll, ond dim ond ambell hyd byr o gerrig sy'n dal i sefyll i nodi'r fan lle'r oedd yr eglwys. Gellir dyfalu o safle'r eglwys mai'r bwriad gwreiddiol oedd i Tanysgafell ddod yn anheddle mwy.

### 3.3 Dynodiadau

Mae'r ddau bâr gogleddol o fythynnod (Rhifau 4-6 Tanysgafell) oll yn rhai Rhestredig Gradd II. Mae'r Ardal Gadwraeth yn sefyll oddi mewn i'r Safle Treftadaeth y Byd ehangach, a hefyd oddi mewn i Dirwedd Hanesyddol Arfon.

**4**
Rhif 6 Tanysgafell.

**5**
Rhif 4 Tanysgafell.

**6 & 7**
Llefydd parcio yn tynnu oddi ar yr olygfa o'r bythynnod

# 4. Ardal Gadwraeth

Mae'r Ardal Gadwraeth yn cynnwys y grŵp o chwe bwthyn cynlluniedig, a fferm gyfagos Tynyclwt Uchaf.

Mae'r chwe bwthyn mewn grwpiau o dri phâr wedi eu lleoli yn ôl o'r ffordd tu ôl i blotiau blaen sylweddol, gyda phlotiau llai yn y cefn. Efallai'n wir mai'r bythynnod hyn yw'r rhai mwyaf urddasol o'r holl fythynnod i weithwyr y Penrhyn o ganol y 19eg ganrif, gyda llechi ar y waliau a ffenestri bae hyfryd. Mae'r ddau bâr gogleddol yn rhai rhestredig.

Maent yn cynnwys pâr cymesur, unllawr o fythynnod dwy-ystafell wedi'u hadeiladu o gerrig rwbel â llechi drostynt, a tho llechi. Mae gan bob bwthyn fynedfa ganolog gyda phorth agored o lechi (a tho talcennog ar y porth). O boptu'r porth mae baeau â tho talcennog iddynt gyda siliau llechi yn gorffwys ar fracedi llechi cerfiedig, a phob un â ffenestr 4-cwarel i'r blaen. Mae yna simneiau pen o lechfaen a chorn simdde ar grib to pob bwthyn, pob un â brig camog a sylfaen o haenau llechi. Mae 'lean-to' unllawr parhaus ar hyd cefn y bythynnod. Mae Rhif 6 wedi cael estyniad ochr i'r chwith, gyda ffenestr Ffrengig liw arddull yr 20fed Ganrif yn y wal flaen (disgrifiad adeilad rhestredig Cadw).

Ers yr adroddiad adeilad rhestredig, mae Rhif 6 wedi cael porth pren sydd allan o gymeriad yn llwyr, ac ymddengys bod yr holl



ffenestri yn y rhes nawr yn rhai plastig.

Mae Rhif 3 a 4 yn edrych yn dda iawn, ac mae gardd arbennig o braf yn Rhif 4. Delwedd 5.

Nid yw'r trydydd bloc, sef Rhif 1 a 2, yn rhestredig, o bosib oherwydd maint yr estyniadau cefn, sy'n llenwi'r plotiau cefn llai yn llwyr. Mae Rhif 1 yn ddiweddar wedi newid y ffenestri brown am rai plastig gwyn, sy'n well o ran lliw ond nid oes bariau i greu cwareli gwydr ynddynt. Mae Rhif 2 wedi colli'r ffenestri bae, gan eu hamnewid am rai plastig tri cwarel.

Mae'r plotiau blaen wedi cael eu haddasu'n helaeth, i wneud lle i barcio ceir, gan gynnwys adeiladu garejys a siediau. Mae llawer o'r datblygiad yma yn rhedeg ar draws y plot, lle byddai datblygiad ar ei hyd yn fwy addas. Mae hyn wedi torri ar y blaendir, gan roi arddull dameidiog iddo, ac mae'n tynnu oddi ar yr olygfa o'r bythynnod. Delweddau 5, 6.

Tu hwnt i'r bythynnod, i'r gogledd mae fferm Tynyclwt Uchaf, mae wedi'i gosod ar ongl i'r bythynnod ac yn ôl o'r ffordd. Fe'i hadeiladwyd









8
Y fferm yn Tynyclwt Uchaf

9
Y ffermdy yn Tynyclwt Uchaf



yn gynharach na'r bythynnod ond ymddengys ei fod yn ffermdy Penrhyn safonol o'r 19eg ganrif. Mae adeiladau'r fferm a'r ffermdy wedi cael eu cadw'n dda a heb eu moderneiddio.

## 5.0 Gwelliannau a argymhellir

Dylid monitro'n agos unrhyw ddatblygiad pellach ar y plotiau blaen, a dylid rhoi gwybod i berchnogion y tai am y canllawiau priodol.

Mewn ardaloedd cadwraeth nid yw nifer o'r trigolion yn ymwybodol o gwbl eu bod yn byw yn y fath ardal. Mae'n ymddangos mai ychydig neu ddim gohebiaeth a fu gyda'r trigolion ers sefydlu'r ardaloedd ac yn aml ni chafodd gohebiaeth gynnar ei phasio ymlaen i'r perchnogion mwy diweddar. Mae hyn, yn rhannol, wedi arwain at fyrdd o estyniadau anffodus, ffenestri a drysau amhriodol a diffyg dealltwriaeth o gymeriad hanfodol yr ardal.

Felly, fe allai fod o gymorth pe bai cyfranogiad y gymuned yn cael ei annog, a phe bai perchnogion yn cael eu hatgoffa o'r canllawiau sy'n berthnasol mewn ardaloedd cadwraeth. Mewn sawl achos cafodd y ffenestri eu haddasu cyn i'r ardal gael ei dynodi, ond ers hynny mae rhai o'r ffenestri hyn wedi cael eu newid, yn aml sawl gwaith. Byddai newidiadau yn y dyfodol yn gyfle i dywys perchnogion eiddo i fathau amgen, mwy derbyniol. Mae'r rhan fwyaf o ffenestri bellach yn rhai UPVC ac ymddengys mai hyn yw'r norm, er bod y ffenestri hyn yn sefyll allan yn boenus mewn hen adeilad. Nid yw'r deunydd yn amgylcheddol gyfeillgar, ac mae'n dirywio o fewn ychydig flynyddoedd. Byddai'n ddefnyddiol annog y perchnogion i gadw dimensiynau'r agoriad gwreiddiol, a hefyd trefniant y gwydr. Nid yw'r rhan fwyaf o berchnogion yn ymwybodol o arwyddocâd eu dewisiadau, felly byddai rhoi gwybod iddynt am arwyddocâd y rhain yn helpu i sicrhau bod cymeriad yr anheddle yn cael ei warchod.

Mae'r ffordd heibio Tanysgafell, y B4409, yn eithaf llydan a syth ac mae'r traffig yn cyflymu wrth deithio ar y rhan hon o'r ffordd. Efallai y byddai'n fuddiol cyflwyno terfyn cyflymder ar ffurf mesur tawelu traffig.

# 6.0 Newidiadau a argymhellir i'r Ardal Gadwraeth

Yr unig newid y byddem yn dymuno ei weld i'r Ardal Gadwraeth fyddai cynnwys yr hen fynwent segur yn yr ardal gadwraeth. Mae mewn ardal o goetir aeddfed ac nid yw i weld dan unrhyw fygythiad oni bai bod cynlluniau i ddatblygu ymhellach ym Mharc Diwydiannol Coed y Parc. Fodd bynnag, erys digonedd o dystiolaeth ymysg y coed, yn cynnwys cylch cyflawn o goed ywen, a mynwent sylweddol a phwysig sy'n cynnwys o leiaf un carreg fedd yn perthyn i breswylydd o Danysgafell. Mae'r fynwent yn dal yn eiddo i'r Eglwys yng Nghymru. Mae gweddillion yr adeilad yn parhau i fod yn arwyddocaol gyda llawer o'r cerrig yn dal yno, er mai ychydig iawn ohonynt sy'n dal i sefyll.

Er mwyn cynnwys yr ardal ehangach o goetir gyda'r eglwys, byddai'n rhaid cynnwys y rhes sydd ar ongl i'r briffordd, sef Trem Ffrancon – pâr o dai deulawr, gyda llechi crog ar y blaen a'r talcen ger y ffordd. Mae gan y rhain gasgliad diddorol o dai bach y tu allan a siediau y tu ôl iddynt, ac maent yn wynebu'r llwybr sy'n mynd heibio'r eglwys.

# 7.0 Ffynonellau


Cadw, nd Disgrifiadau o Adeiladau Rhestredig

Fisher, J., 1917 Tours in Wales (1804-1818) by Richard Fenton

Haslam, R., Orbach, J., Voelcker, A., 2009 The Buildings of Wales: Gwynedd

Hughes, H., and North, H. L., 1924 The Old Churches of Snowdonia

John Ll. Williams a Lowri W. Williams, gwefan Hanes Dyffryn Ogwen https://hanesdyffrynogwen.wordpress.com/





10
Gweddillion yr eglwys

Gwynedd Archaeological Trust
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd

Craig Beuno, Ffordd y Garth, Bangor, Gwynedd. LL57 2RT
Ffon: 01248 352535. Ffacs: 01248 370925. email:gat@heneb.co.uk